Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach: Dewch i'n hadnabod ni

Pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, pam ei fod yn bwysig.

Pwy ydym ni

Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i fyw bywyd iach. Dyna beth rydyn ni'n hyrwyddo bob dydd.

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol Cymru. Rydym yn bodoli i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach.

Gyda'n partneriaid, ein nod yw cynyddu disgwyliad oes iach, gwella iechyd a llesiant, a lleihau anghydraddoldebau i bawb yng Nghymru, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Atal clefyd

Diogelu iechyd

Gwella llesiant

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Ein gwaith

Rydym yn chwarae rhan unigryw a hanfodol yn iechyd y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal a chefnogi gofal iechyd.

Rydym yn darparu gwasanaethau cenedlaethol, fel sgrinio, brechu, a rhaglenni diogelu iechyd y cyhoedd, i helpu pobl i aros yn iachach am hirach.

Rydym hefyd yn mynd i'r afael â'r ystod lawn o faterion sy'n llunio iechyd. O atal clefydau ac amddiffyn rhag bygythiadau, i leihau anghydraddoldebau a llunio'r amodau sy'n cefnogi llesiant.

Archwiliwch ymhellach ar-lein:
https://icc.gig.cymru/eiriolaeth

Am drafodaeth bellach gyrrwch e-bost:
phw.advocacy@wales.nhs.uk

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, rydym yn arwain ymdrechion atal hirdymor ac iechyd y boblogaeth, gan weithio gyda phartneriaid ledled y wlad i helpu i greu cymunedau iachach a mwy ffyniannus.

Ein nod yw Cymru lle gall pawb fyw bywydau hirach ac iachach gyda mynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n cefnogi iechyd a llesiant da.

Mae ein gwaith yn cwmpasu:

Diogelu Iechyd a Heintiau
Gwneud diagnosis, trin a rheoli clefydau heintus, bygythiadau amgylcheddol ac argyfyngau iechyd y cyhoedd.

Polisi a Phartneriaethau
Cynghori a chefnogi'r llywodraeth a phartneriaid gyda mewnwelediad iechyd y cyhoedd arbenigol y gellir ymddiried ynddo.

Gwasanaethau Sgrinio
Canfod cyflyrau fel canser ac anhwylderau newyddenedigol yn gynnar trwy raglenni sgrinio cenedlaethol.

Gwella Iechyd
Cefnogi ffyrdd o fyw sy'n gwella iechyd, o leihau ysmygu a defnyddio sylweddau i faeth gwell, gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol.

Ymchwil ac Arloesi
Gwella canlyniadau iechyd drwy newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth a syniadau newydd.

Gwyliadwriaeth a Deallusrwydd
Troi data yn fewnwelediadau ymarferol i benderfyniad ar sail gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth.

Pam mae'n bwysig?

Nid oes gan bawb yng Nghymru yr un cyfle i fyw bywyd iach.

Nid yw iechyd yn ymwneud â gofal iechyd yn unig. Mae tai, addysg, swyddi, incwm a'r amgylchedd i gyd yn effeithio ar pa mor hir a pha mor dda yr ydym yn byw. Dyna pam rydyn ni'n gweithio ar draws sectorau i roi iechyd wrth wraidd penderfyniadau ynghylch dyfodol Cymru.

Drwy ddod â thystiolaeth, partneriaeth ac arloesedd at ei gilydd, rydym yn helpu i greu'r amodau i bobl a chymunedau ledled Cymru ffynnu.

Ni yw Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach.

Archwiliwch ymhellach ar-lein:
https://icc.gig.cymru/eiriolaeth

Am drafodaeth bellach gyrrwch e-bost:
phw.advocacy@wales.nhs.uk

11/2025